Amgueddfa'r Môr PORTHMADOG Maritime Museum

Cylchlythyr - News Letter

GAEAF– 2020/2021 WINTER

Roedd 2020 yn flwyddyn anodd iawn gyda phandemig Coronavirus / Covid-19. Effeithiodd hyn ar y byd i gyd a bywydau miliynau o bobl.

Ym mis Mawrth fe orchmynnodd y llywodraeth " i gloi " felly gohiriwyd ein hailagor arfaethedig adeg y Pasg a dilynwyd rheoliadau'r Llywodraeth. Pan leddfwyd y cyfyngiadau yn ystod mis Awst, o ran lles ein gwirfoddolwyr a'r cyhoedd ac anhawster gweithredu'r canllawiau, penderfynwyd canslo ailagor. Mae'r rheoliadau wedi'u newid yn aml ac rydym yn ddiolchgar i Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru am ein diweddaru ni a chyda'u cyngor a'u cefnogaeth. Trwy eu system bostio rydym wedi rhannu profiadau â sawl amgueddfa fach arall.

Y tu mewn i'r amgueddfa mae'r arwyddion rheoliadol wedi eu gosod ac mae Offer Amddiffyn Personol ar gael i unrhyw wirfoddolwyr sydd angen mynd i mewn i'r adeilad i wirio'r casgliad ac unrhyw waith cynnal a chadw.

A'r dyfodol? Mae datblygiad y brechlyn yn newyddion rhagorol ac erbyn hyn mae golau ar ddiwedd y twnnel ond mae cryn dipyn i'w wneud eto. Efallai erbyn y Gwanwyn y gallwn ystyried ailagor adeg y Pasg a chroesawu ein hymwelwyr eto.

Cadwch yn saff bawb.

The year 2020 was a very difficult year with the Coronavirus/Covid-19 pandemic. This affected the whole world and the lives of millions of people.

In March the government ordered a "lockdown" so our planned reopening at Easter was postponed and Government regulationswere followed. When restrictions were eased during August, with regard for the wellbeing of our volunteers and public and the difficulty of implementing the guidelines, it was decided to cancel re-opening.The regulations have been changed frequently and we are thankful to the Federation of Welsh Museums for keeping us up to date and with their advice and support. Through their mailing system we have shared experiences with several other small museums.Inside the museum the regulation signage is in place and Personal Protection Equipment is available for any volunteers who need to enter the building to check the collection and any emergency maintenance.

And the future? The development of the vaccine is excellent news and there is now light at the end of the tunnel but there is still a long way to go. Perhaps by the Spring we can consider re-opening at Easter and welcome our visitors again.

Stay safe everyone.



Gweithgaredd Morwrol

Ym mis Medi llwyddodd y cwmni llongau arbenigol, Robert Wynn a'i feibion, i lanio eu llestr codi llwythau trwm unigryw "Terra Marique" ym Morfa Bychan. Penderfynwyd osgoi'r aflonyddwch a fyddai wedi cael ei achosi trwy ddefnyddio Harbwr Porthmadog, y porthladd traddodiadol ar gyfer mynediad i 'r atomfa ac is-orsaf Trawsfynydd.

Roedd y "llong" 80mx 16.5m, sydd â gwaelod gwastad ac wedi'i ddylunio'n benodol i sychu allan, yn cludo trawsnewidydd trydan 128tunnell wedi'i lwytho yn Rotterdam. Bu cannoedd yn gwylio'r gweithrediad ar y traeth a deuddydd yn ddiweddarach yn leinio'r ffordd wrth i'r llwyth gael ei gludo, ar y ffordd i'r orsaf bŵer.



Ffoto/photo Mary Collard

Maritime Activity



Ffoto/photo Robert Wynn and Sons Ltd

In September specialist shipping company Robert Wynn and Sons Ltd. successfully beached their unique heavy lift barge Terra Marique at Morfa Bychan. It was decided to avoid the disruption that would have been caused through the use of Porthmadog Harbour, the traditional port for access to Trawsfynydd power station and substation.

The 80mx 16.5m barge, which is flat bottomed and specifically designed to take the ground,was delivering a 128 ton electricity transformer loaded in Rotterdam and destined for National Grid's substation at Trawsfynydd. Hundreds watched the operation on the beach and two days later lined the route as the transformer was taken, by road to the power station.

Amgueddfa Rithwir

Yn ystod y cyfnod cloi beth am fynd ar daith rith-wir o'n Hamgueddfa
Gallwch weld lluniau o lawer o arteffactau, delweddau a gwybodaeth hanesyddol
Mae'r tair gwefan yn ddwyieithog

Virtual Museum

During the Lockdown why not take a virtual tour of our Museum.
You can see pictures of many artefacts, images and historical information.
All three websites are bilingual.

Facebook https://www.facebook.com/AmgueddfaPort
Wefan yr Amgueddfa / Museum website https://portmm.org/
Rhyfel Gyntaf ar y Môr / Our WW 1 at Sea display at Casgliad y Werin/People's Collection of Wales website https://www.peoplescollection.wales/users/31286

Amrywiaeth - Miscellany

Ar hyn o bryd mae gan Uned Deifio Archeolegol Malvern (MADU) gronfa ddata o 453 o longddrylliadau ym mhen gogleddol Bae Ceredigion. Mae'r llongddrylliadau hyn, yn dyddio o 1590 i 1993 ac ychydig iawn sydd wedi cael eu hymchwilio'n fanwl. Mae prosiect ar y gweill i ymchwilio i'r llongddrylliadau hyn ac mae Amgueddfa'r Môr Porthmadog yn cymryd rhan.


Welsh Wreck Web Research Project
(North Cardigan Bay)
On-line research into the wreck of the:
CASTILIAN
Possibly the CASTILIAN

The Malvern Archaeological Diving Unit (MADU) currently has a database of 453 shipwrecks in the north end of Cardigan Bay. These wrecks date from 1590 to 1993 and very few have been investigated in any depth. A project is underway to research into these wrecks and the Porthmadog Maritime Museum is involved.

Mae'r Gronfa Ddata ar-lein a gellir ymweld â hi yma:

The Database is online and can be visited here:

http://www.madu.org.uk/Page%204.42%20-%20www%20Research%20Project%20-%202020.dwt

Fel enghraifft dyma un adroddiad a gyflwynwyd gan yr amgueddfa. Mae'n cynnwys y "Castilian" ac mae'n gynnwys llawer o gyfeiriadau at Borthmadog, bad achub Criccieth, Morfa Bychan a Harlech.

As an example here is one report submitted by the museum. It features the "Castilian" and contains many references to Porthmadog, Criccieth lifeboat, Morfa Bychan and Harlech.

http://www.madu.org.uk/Images/www%20Project%20-%20Castilian.pdf

Llongau Porthmadog a ddarganfuwyd ar y We - Porthmadog ships found on the Web



Brig EVELYN



"Jack" Barquentine C.E.SPOONER



Three masted Schooner FRAU MINNA PETERSEN



Barquentine BLANCHE CURREY



Brigantine WERN



Three masted schooner SIDNEY SMITH

ISALLT -diwedd oes - end of an era

Hon oedd yr ail long o'r enw hwn ac roedd hi'n "Western Ocean Yacht" glasurus a adeiladwyd gan David Williams ym Mhorthmadog ym 1909 i ddisodli'r llong gyntaf o'r enw hwnnw a gollwyd y flwyddyn flaenorol. Meistr medrus yr ISALLT oedd Capten R.O. Williams drwy gydol y cyfnod yr oedd hi'n perthyn i'r perchnogion ym Mhorthmadog. Cadwyd hi'n brysur yn y fasnach glasurol; Porthmadog gyda llechi i'r Almaen yna halen i Newfoundland a Labrador lle byddai penfras hallt yn cael ei lwytho ar gyfer De America neu Sbaen, Gwlad Groeg neu'r Eidal. Yn aml, Gibraltar fyddai i dderbyn archebion.

Fe'i gwerthwyd i Wlad yr Iâ ac yna Boston Lincs ym 1918 a pharhaodd yn y fasnach i Newfoundland am ychydig. Yn 1920 cafodd ei gwerthu i Michael Cadogan o Cape Clear, Iwerddon, a'i chofrestru yn Skibbereen. Treuliodd y 1920au a'r 30au yn bennaf ym masnach Môr Iwerddon, gan gario glo i borthladdoedd De Iwerddon. Ym 1934, cychwynnodd cymryd dŵr yn ystod storm dra ar ei daith o Benbedw i Skibereen. Cafodd y criw eu hachub gan fad achub Moelfre ond yn ddiweddarach fe wnaethant ail-fyrddio'r llong. Rhwng 1940 a 1946 roedd yn cael ei defnyddio gan Wasanaeth Morol Iwerddon fel llong hyfforddi. Ar ôl y Rhyfel fe wnaeth pedwar dyn o Arklow ei phrynu ac fe ail-afaelodd yn ei chyn-fasnach ond roedd ei dyddiau 'n dod i ben. Ym 1946 aeth i drafferthion oddi ar Howth Head a chafodd ei towio i mewn i Ddulyn. Fe'i gwerthwyd i Mr A.A. Harris a gafodd ei hatgyweirio ond roedd y diwedd wedi dod. Mewn mordaith prawf (roedd am fynd i'r Caribï) yn 1947 cafodd ei gyrru ar y lan mewn gwynt De Dwyreiniol ffyrnig ar draeth Ballymooney ar arfordir Iwerddon gyda cholli trasig pedwar o'r criw o chwech. Y meistr, a oedd yn un o'r rhai a gollwyd, oedd y Capten Charles McGuiness, cymeriad adnabyddus yn ei ddydd. Yr ISALLT oedd y llong olaf a adeiladwyd ym Mhorthmadog dal dan hwyl a chyda'i ddrylliad daeth oes i ben.



Llongrylliad yr ISALLT shipwreck



Pendelw/figurhead yr ISALLT

This was the second vessel of this name and was a classic "Western Ocean Yacht", built by David Williams at Porthmadog in 1909 to replace the first vessel of that name which was lost the previous year. The ISALLT was ably commanded by Captain R.O. Williams throughout the period she was owned at Porthmadog. She was kept busy in the now classic trading routes; Porthmadog with slates to Germany then salt to Newfoundland and Labrador where salt cod would be loaded for South America or Spain, Greece or Italy. Often it would be Gibraltar for orders.

She was sold to Iceland then Boston Lincs in 1918 and continued in the Newfoundland trade for a couple of years. In 1920 she was sold to Michael Cadogan of Cape Clear, and registered at Skibbereen Eire. She spent the 1920s and 30's mostly in the Irish Sea trade, carrying coal to Southern Irish ports. In 1934 she sprang a leak during a gale while on passage from Birkinhead to Skibereen. The crew were taken off by the Moelfre lifeboat but later reboarded the vessel. From 1940 - 1946 she was operated by the Marine Service of Eire as a training ship. After the war four Arklow men bought her and she resumed her former trade but her luck was running out. In 1946 she got into trouble off Howth Head and was towed in to Dublin.

She was sold to a Mr A.A. Harris who had her repaired But the end had come. In a trial voyage (she was to go to the Caribbean) in 1947, she was driven ashore in a fierce SE'ly gale on Ballymooney Strand on the Irish coast with the tragic loss of four of the crew of six. The master, who was one of those lost, was Captain Charles McGuiness, a well known character in his day. The ISALLT was the last Porthmadog built ship under sail and with her wrecking an age ended

Modelau Llong



M.A.James

Bertie a Percy Japheth, o Trefor, a adeiladodd fodel y sgwner tri mast M.A.JAMES. Yn y ffoto ar y dde maent yn dangos model, o bosibl, y brigantîn, yr EDWARD WINDUS - a gomisiynwyd gan yr awdur Jan Morris



Barque GWYTHEYRN CASTLE

Robert Thomas & Cyf o Griccieth oedd yn berchen ar y llong hon. Hwyliodd llawer o ddynion o Borthmadog, Criccieth a Nefyn arni.
This ship was owned by Robert Thomas & Co of Criccieth. Many men from Porthmadog, Criccieth and Nefyn sailed on her.



Sgwner/Schooner EDWARD ARTHUR

Ship Models



Bertie and Percy Japheth, from Trefor, who built the model of the three masted schooner M.A.JAMES. In this photo they are showing a brigantine, possibly the EDWARD WINDUS – commissioned by author Jan Morris.



Brigantîn SARAH PRITCHARD

Gan Jac Couture o Borthmadog. Adeiladodd sawl model o longau lleol. Mae'r rigin wedi'i adfer ers i'r llun hwn gael ei dynnu.
By Jac Couture of Porthmadog. He built several models of local ships. The rigging has been restored since this photo was taken.



Model adeiladwyr o long hwyliau sgwar CAMBRIAN PRINCESS, eiddo i'r Capten Thomas Williams Cricieth. Benthycwyd gan Ysgol Treferthyr Cricieth.
Builder's hull model of full rigged ship CAMBRIAN PRINCESS owned by Capt. Thomas Williams Criccieth. Loaned by Ysgol Treferthyr School, Criccieth

The CAMBRIAN 6th June 1829

The sloop Priscilla, of Pwllheli, Robert Evans, master, from Portmadoc, with slate, for Shoreham, was dismasted on Wednesday morning, off the Land's End, and soon after was fallen in with by the schooner Henry, of Fowey, Tippett, master, and was towed up to Penzance pier that night.

Collodd y slŵp PRISCILLA o Pwllheli ei mast ger Land's End ar ei ffordd o Borthmadog i Shoreham gyda llechi Cafodd ei thynnu i Penzance gan y sgwner HENRY o Fowey

YR AMSERAU Mehefin 3 1857

AGERDD-DRAMWYFA WYTHNOSOL I AC O
ABERYSTWYTH A LIVERPO O
YN GALW YN MHORTHMADOG, AC
ABERYSTWYTH A BRISTOL,



Y mae y *Cambrian Steam Packet Company* (terfynol), oddieithr cael eu lluddias gan ddigwyddiadau diragweledig, yn bwriadu anfon gyda nwyddau a theithwyr, eu hagerdd-long Ysgriw newydd ailnog, "Y PLYNLYMON," llwyth 280 tun., 45 gallu ceffyl, William Wraight, Meistr. neu rhyw lestr arall gyfaddas, fel isod :—

O LIVERPOOL i Portmadoc ac Aberystwyth, yn myned yn mlaen i Bristol.
Gwener..... Meh. 5ed ..... 8 boreu.

O LIVERPOOL i Aberystwyth a Portmadoc, yn dychwelyd i Liverpool.
Sadwrn..... Meh. 13eg ..... 1 prydn.

O LIVERPOOL i Portmadoc ac Aberystwyth, yn myned yn mlaen i Bristol.
Sadwrn..... Meh 20fed ..... 8 prydn.

O LIVERPOOL i Aberystwyth a Portmadoc, yn dychwelyd i Liverpool.
Mawrth ..... Meh. 30ain..... 3 boreu.

Prisiau—*Saloon*, 15s.; Ail Gaban, 10s.: Bwrdd, 6s. Tocynau i ychwelyd yn fuddiol gyda'r Fordaith nesaf yn cael eu rhoddi am Bris a Haner.

Ceffylau, 20s.; Gwartheg, 15s.; Defaid, 2s.; Moch 2s. 6c.; Gigs, 15s.; Phaetons, 21s.; Cerbydau, 30s.

D S.—Dymunir i Deithwyr gymeryd gofal o'u cludge fi eu hunain, gan na fydd y Cwmni yn atebol mewn un modd am eu diogelwch. Cymerir ceffylau, gwartheg, a chludai o bob math ar y bwrdd ar antur y perchenog. Ni bydd y cwmni yn atebol am unrhyw farnelau o werth mwy na £10, oddieithr bod y gwerth wedi ei fynegu yn mlaen llaw, a thalu am dano yn gyfatebol, a ac am ddim coll amser neu ddamwain a achosir trwy fod eu hagerlong yn cael ei defnyddio i lusgo neu achub unrhyw lestr arall, nac am nwyddau peryglus, oddieithr eu hysbysu felly wrth eu llonglwytho.

Am brisiau cludiad a manylion pellach, ymofyner ag Ysgrifenydd y Cwmpeini yn eu Prif Swyddfa, Parthenon Chambers, 14, Regent Street, London; neu y Gorchwylwyr, E. T. Turner, 12, Quay-street, Bristol; Bennet Williams, Harbour-office, Portmadoc; George Green, Cambrian Foundry, Aberystwyth; and

FREDK. A. TAMPLIN,
Columbia-buildings, Brunswick-street, Liverpool.

Advertisement for a steam service between Aberystwyth, Porthmadog and Liverpool 1857

YR HERALD CYMRAEG Tachwedd 6 1917

PORTHMADOG CYDNABOD DEWRDER. Yn ystod y cyngerdd, nos Fercher, bu i Mr Richard Davies, y cadeirydd, gyflwyno bathodyn a thystysgrif y Gymdeithas Ddyngarol i Mr John Williams, Britannia Inn, a Mr Aneurin Lloyd Jones, Dora House. Achubodd Mr Jones fywyd boneddiges ieuanc rhag boddi ger y Garreg Goch, a Mr Williams fywyd plentyn bychan yn y porthladd.

Chairman of the Council presented Humane Society medals and certificate to John Williams for rescuing a child from the harbour and to Aneurin Lloyd Jones for saving a lady at Borth y Gest

CAMBRIAN NEWS May 22 1885
PORTMADOC. LAUNCH OF A VESSEL.- Early on Thursday morning last a very large number of people assembled on the quay, Garth, and other points to see the launch of the vessel which has lately been built by Mr David Jones. Shipbuilder, of Madoc-street, in this town. Some years ago several of these events took place annually, but owing to the lowness of freights and slackness of trade shipbuilding has been at a standstill of late, and this is the first vessel launched at Portmadoc f or the last seven years; and unusual interest was consequently taken in the event. The launch was in every way successful. The vessel, which is a schooner, and of 118 tons gross register, was christened by Mrs R. M. Greaves, Wern, Portmadoc, and named the "Richard Greaves." The vessel, as also most of the vessels in the harbour, was gaily decorated with a display of flags.

Lansiad y sgwner ROBERT GREAVES

North Wales Chronicl 5th October 1847
MARRIAGE
On the 1st inst. at the Parish Church, LLanfihanfihangel-y-Traethau, Merionethshire, Mr. W. E. Morris, Harbour Master, Portmadoc, to Jane, the youngest daughter of the late Capt. William Jones.

Priodas W.E.Morris gyda Jane, ferch Capt. William Jones

Ysgrifennydd / Secretary
https://portmm.org/
contact@portmm.org

Visit us on Facebook

https://www.facebook.com/AmgueddfaPort/